

PECYN CYMORTH CORONAFEIRWS GWERTH £330 BILIWN

Adran 1: **CYNLLUNIAU CYFLOGAETH**

Adran 2: **CYNLLUNIAU CYFLOGAETH**

Adran 3: **CYNLLUNIAU CYFLOGAETH**

PECYN CYMORTH ARIANNOL

Ddydd Gwener 20 Mawrth, amlinellodd y Canghellor, Rishi Sunak, becyn o fesurau er mwyn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus, pobl a busnesau drwy'r ansicrwydd a achosir gan y feirws COVID-19. Cyhoeddwyd mesurau pellach ar 26 Mawrth i gefnogi pobl hunangyflogedig. Mae'r daflen wybodaeth yma – a ddatblygwyd mewn partneriaeth a Chyfrifwyr Llŷr James – yn amlinellu'r cynlluniau cymorth ariannol sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru.

1. CYNLLUNIAU CYFLOGAETH

CYNLLUN CADW SWYDDI CORONAFEIRWS

Bydd CThEM yn ad-dalu 80% o gostau cyflogi gweithwyr 'ar seibiant', hyd at uchafswm o £2,500 y mis. Fel rhan o Gynllun Cadw Swyddi Coronafeirws, bydd pob cyflogwr yn y DU yn gallu cael mynediad at gefnogaeth i barhau i dalu cyflog y gweithwyr hynny a fyddai wedi cael eu diswyddo fel arall yn ystod yr argyfwng. Mae pob busnes yn y DU yn gymwys. Bydd angen i gyflogwyr ddynodi gweithwyr sydd wedi'u heffeithio fel 'gweithwyr seibiant' a hysbysu eich gweithwyr o'r newid hwn.

Bydd hefyd angen i gyflogwyr gyflwyno gwybodaeth i CThEM ynglŷn â'r gweithwyr sydd wedi cael eu dynodi'n 'weithwyr seibiant' a'u cyflogau trwy borth newydd ar-lein (rydym ni'n aros am wybodaeth gan CThEM).

Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddwr eu cwmnïau eu hunain. Fel swyddogion yn y cwmni, mae ganddynt hawl i ymgymryd â'u hymrwymiaadau statudol.

CYNLLUN CYMORTH INCWM AR GYFER YR HUNANGYFLOGEDIG

Ar 26 Mawrth, cyhoeddodd y Canghellor grant i'w dalu i bobl hunangyflogedig ac aelodau o bartneriaeth sydd wedi colli incwm o ganlyniad i'r coronafeirws. Bydd y cynllun hwn yn eich galluogi i hawlio grant trethadwy gwerth 80% o'ch elw masnachu hyd at £2,500 y mis, am y 3 mis nesaf. Bydd y ffigwr 80% yn seiliedig ar elw net ar gyfer 2016/17 i 2018/19.

Ceir amod pellach bod angen i'ch elw masnachol hunangyflogedig fod yn llai na £50,000 ac mae'n rhaid i fwy na hanner o'ch incwm ddeillio o hunangyflogaeth.

Dim ond y rhai hynny sydd wedi cyflwyno eu ffurflenni treth ar gyfer 2018/19, sydd wedi masnachu yn 2019/20 ac sy'n bwriadu masnachu yn 2020/21 sy'n gymwys. Os nad ydych wedi cyflwyno eich ffurflen Hunan Asesiad Treth ar gyfer blwyddyn dreth 2018/19, mae'n rhaid i chi wneud hyn erbyn 23 Ebrill 2020 i fod yn gymwys.

Bydd CThEM yn cysylltu â threthdalwyr sy'n gymwys ar gyfer y cynllun ac yn eu gwahodd i ymgeisio ar-lein. Bydd CThEM yn talu'r grant yn uniongyrchol i gyfrif banc y trethdalwr, mewn un taliad, ym mis Mehefin 2020.

Os ydych chi'n hawlio credydau treth, bydd angen i chi gynnwys y grant hwn yn eich hawliad fel incwm.

TÂL SALWCH STATUDOL

Mae Tâl Salwch Statudol (SSP) fel arfer yn daladwy o bedwerydd diwrnod y salwch. Fodd bynnag, os ydych chi'n hunan-ynysu o ganlyniad i COVID-19 o 13 Mawrth, gallwch bellach hawlio SSP o'r diwrnod cyntaf. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n gofalu am bobl sy'n hunan-ynysu yn yr un tŷ ac sydd mewn cwarantîn.

Cyfradd SSP ar hyn o bryd yw £94.25 yr wythnos ac mae'n cael ei dalu gan gyflogwyr am hyd at 28 wythnos.

O ddydd Gwener 20 Mawrth ymlaen, mae'r rhai sy'n dioddef o COVID-19 neu wedi derbyn cyngor i hunan-ynysu hefyd yn gallu derbyn "nodyn ynysu" trwy ymweld â GIG 111 ar-lein a chwblhau ffurflen ar-lein.

GALL CYFLOGWYR BACH ADHAWLIO PYTHEFNOS O DÂL SALWCH STATUDOL

Os ydych chi'n rhedeg busnes bach neu ganolig, gallech fod yn gymwys i adhawlio costau tâl salwch statudol ar gyfer absenoldeb salwch o ganlyniad i COVID-19.

Bydd yr addaliad hwn yn talu am hyd at bythefnos o dâl salwch statudol fesul cyflogwr cymwys sydd naill ai'n sâl neu wedi cael eu cyngori i hunan-ynysu oherwydd COVID-19. Bydd cyflogwyr gyda llai na 250 o weithwyr yn gymwys. Bydd maint y cyflogwr yn cael ei bennu gan nifer y gweithwyr o 28 Chwefror 2020. Bydd cyflogwyr yn gallu adhawlio unrhyw wariant ar gyfer unrhyw weithiwr sydd wedi hawlio tâl salwch statudol o ganlyniad i COVID-19.

Dylai cyflogwyr gadw cofnodion o absenoldeb staff, ond ni fydd angen i weithwyr ddarparu nodyn ffirwydd gan y meddyg teulu.



2. CYNLLUNIAU TRETH

GOHIRIO TALIADAU TAW

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi gohiriad i daliadau TAW am gyfnod o 3 mis o 20 Mawrth 2020 hyd 30 Mehefin 2020 i helpu gyda llif arian parod. Mae pob masnachwr sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW yn gymwys. Yn gyffredinol, bydd hyn yn golygu gohirio taliadau TAW un chwarter, y taliadau sy'n ddyledus ar 7 Ebrill, 7 Mai neu 7 Mehefin 2020 neu'r taliadau misol sy'n ddyledus ar bob un o'r dyddiadau hyn. Mae'r gohiriad yn awtomatig; fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd CThEM yn gohirio casglu taliadau TAW trwy ddebyd uniongyrchol yn awtomatig yn ystod y cyfnod hwn felly rydym yn argymhell y dylech ganslo eich gorchymyn debyd uniongyrchol ond cofwch ail drefnu unwaith eto mewn da bryd. Bydd gan fusnesau tan ddiwedd blwyddyn dreth 2020/21 i dalu unrhyw ymrwymadau TAW sy'n cronni.

Bydd ad-daliadau ac adhawliadau TAW yn cael eu talu gan y llywodraeth yn ôl yr arfer. Dylai busnesau barhau i gyflwyno eu ffurflenni TAW erbyn y dyddiad cau er mwyn osgoi cosb.

OEDI RHEOLAU "GWEITHIO ODDI AR Y GYFLOGRES" (IR35)

Mae'r rheolau newydd ar gyfer gweithwyr sy'n darparu eu gwasanaethau drwy gwmnïau gwasanaeth personol a oedd i fod i ddechrau o 6 Ebrill 2020 wedi cael eu dal yn ôl am flwyddyn. Byddai hyn wedi rhoi baich gweinyddol ychwanegol sylweddol ar fusnesau mawr a chanolig a byddai wedi arwain at fwy o dreth incwm ac yswiriant gwladol yn cael ei dynnu gan y gweithwyr sydd wedi'u heffeithio.

OEDI TALIADAU 31 GORFFENNAF AR GYFRIF

Ni fydd gofyn i drethdalwyr hunangyflogedig wneud y taliadau ar gyfrif ar gyfer treth 2019/20 a fyddai'n ddyledus fel arfer ar 31 Gorffennaf 2020.

Bydd y dreth ohiriedig yn dal i fod yn ddyledus ar 31 Ionawr 2021 ynghyd â'r taliad olaf ar gyfer 2019/2020.

Nid oes angen ymgeisio ac ni fydd y rhai sydd wedi'u heffeithio yn wynebu cosbau na llog ar y taliadau hynny.

AMSER YCHWANEGOL I DALU EICH YMRWYMIADAU TRETH

Yn ogystal ag oedi taliadau TAW a threth incwm ar gyfrif, gallai busnesau a threthdalwyr hunangyflogedig sydd dan straen ariannol o ganlyniad i'r Coronafeirws negodi amser ychwanegol er mwyn talu eu trethi.

Gallwch ffonio llinell gymorth penodol CThEM ar 0800 0159559, neu gallwn gysylltu â nhw ar eich rhan. Cyn cysylltu â CThEM, argymhellir y dylech fod â rhagolygon ariannol a datganiad o'ch asedau a'ch ymrwymadau wrth law. Unwaith eto, gallwn ni eich helpu gyda hyn.

Fel arfer, bydd CThEM yn disgwyl i chi greu cynllun taliad misol sy'n cael ei gasglu drwy ddebyd uniongyrchol. Mae gan y rhan fwyaf o staff canolfan gyswllt rheoli dyled CThEM awdurdod i gytuno ar amserlen dalu dros gyfnod o hyd at 12 mis. Gellir trefnu cyfnodau hwy ond fel arfer mae angen cyfeirio ceisiadau at staff uwch o fewn CThEM.

RHYDDHAD ARDRETHI BUSNES

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno seibiant o dalu ardrethi busnes ar gyfer busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden yng Nghymru ar gyfer blwyddyn dreth 2020/21. Ni fydd eiddo gyda gwerth ardrethol dros £500,000 yn gymwys ar gyfer hwn. Bydd busnesau a dderbyniodd y gostyngiad manwerthu yn ystod blwyddyn dreth 2019/20 yn derbyn bil arall gan eu hawdurdod lleol cyn gynted â phosibl. Bydd yr eiddo a fydd yn elwa o'r rhyddhad hwn yn eiddo sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol:

- fel siopau, bwytai, caffis, lleoliadau yfed, sinemâu a lleoliadau cerddoriaeth fyw,
- ar gyfer ymgynnull a hamdden
- ac fel gwestai ac eiddo preswyl a llety hunan arlwyio

3. GRANTIAU A BENTHYCIADAU

GRANT BUSNESAU BACH

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid grant ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi busnesau bach sydd eisoes yn talu ychydig iawn neu ddim ardrethu busnes o ganlyniad i ryddid ardrethu busnesau bach (SBBR). Bydd hwn yn darparu grant unigol o £10,000 i fusnesau cymwys i dalu eu costau busnes cyfredol.

Mae'r ddolen i fynd â chi at dudalen ymgeisio eich cyngor lleol ar waelod y dudalen hon.

CYNLLUN GRANT MANWERTHU A LLETYGARWCH

Mae cynllun grant arian parod ychwanegol ar gael i fusnesau yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden. Gall busnesau cymwys dderbyn grant arian parod o hyd at £25,000 fesul eiddo. Mae'r grant yn berthnasol i fusnesau yn y sector hwn gyda gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £51,000.

CYNLLUN BENTHYCIADAU TARFU AR FUSNES YN SGIL CORONAFEIRWS

Mae'r cynllun benthyciad newydd hwn yn cael ei ddarparu gan Fanc Busnes Prydau, a fydd yn lansio o 23 Mawrth 2020 i gefnogi busnesau bach, canolig a mawr i gael mynediad at fenthyciadau banc. Bydd y llywodraeth yn darparu gwarant o 80% i fenthycwyr ar bob benthyciad er mwyn rhoi sicrwydd pellach i fenthycwyr allu parhau i ddarparu cyllid i fusnesau bach a chanolig. Ni fydd angen unrhyw warant bersonol ar gyfer benthyciadau hyd at £250,000. Bydd y Cynllun yn cefnogi benthyciadau gwerth hyd at £5 miliwn, ac ni fydd llog yn cael ei godi am y 12 mis cyntaf. Mae'r cynllun yn berthnasol i bob busnes yn y DU gyda throsiant heb fod yn uwch na £45 miliwn y flwyddyn. Bydd Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes Mawr (CBILS) sydd newydd ei gyhoeddi, yn caniatáu i gwmnïau sydd â throsiant rhwng £45m a £500m fenthycy hyd at £25m, wedi'i warantu gan y llywodraeth.

Bydd Banc Lloegr hefyd yn prynu dyled tymor byr gan gwmnïau mwy fel rhan o Gyfleuster Cyllido Corfforaethol Covid-19.



BENTHYCIAD BANC DATBLYGU CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Benthyciad Banc Datblygu Cymru Covid-19 i gefnogi busnesau sydd wedi cael eu heffeithio gan yr argyfwng Covid-19. Bydd y Cynllun ar gael gan Fanc Datblygu Cymru am gyfnod cyfyngedig. Ei fwriad yw darparu cymorth i fusnesau sy'n wynebu anawsterau llif arian o ganlyniad i'r pandemig.

Bydd y cynllun benthycia yn gweithio ar y cyd â Chynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil Coronafeirws ar draws y DU, cynigion eraill am gymorth gan Lywodraeth Cymru a'r DU, gan ddarparu mwy o opsiynau hanfodol ar gyfer busnesau Cymru. Mae benthyciadau o rhwng £5,000 a £250,000 ar gael i fusnesau sydd wedi bod yn masnachu am fwy na dwy flynedd ac yn gallu dangos eu bod yn gallu cynnal y lefel honno o ddyled cyn yr argyfwng.

Manylion y Gronfa:

- cronfa o £100m
- benthyciadau rhwng £5,000 a £250,000, mae lefelau uchafswm ar gyfer benthyciadau'n berthnasol
- seibiant o 12 mis ar ad daliadau cyfalaf a llog
- dim ffioedd trefnu na monitro
- llog o 2% yn sefydlog am 6 mlynedd (gan gynnwys y seibiant 12 mis)

Mae manylion y gronfa, cymhwysedd a'r broses ymgeisio ar gael ar wefan Banc Datblygu Cymru <https://developmentbank.wales/>

CRONFA CYDNERTHEDD ECONOMAIDD CYMRU

Gall busnesau hefyd elwa o gronfa argyfwng o £400 miliwn sy'n darparu:

- grantiau o £10,000 ar gyfer busnesau micro sy'n cyflogi hyd at naw person. Mae hyn yn cynnwys unig fasnachwyr sy'n cyflogi staff. Bydd busnesau cymwys yn gallu ymgeisio erbyn canol Ebrill.
- grantiau o hyd at £100,000 i fusnesau bach a chanolig gyda rhwng 10 a 249 aelod staff. Bydd busnesau cymwys yn gallu ymgeisio erbyn canol Ebrill.
- cymorth i fusnesau mwy yng Nghymru, sydd o bwysigrwydd cymdeithasol neu economaidd critigol i Gymru. Bydd yr elfen hon ar gael i fusnesu o fewn y pythefnos nesaf.

Mae manylion y broses ymgeisio a chymhwysedd yn cael eu cadarnhau a byddant yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Am ragor o wybodaeth a dolenni ymgeisio ar gyfer eich cyngor lleol, ewch i: -

<https://businesswales.gov.wales/financial-support-and-grants>



Hoffem allu ymateb i gwestiynau penodol sydd gennych chi yn ein bwletinnew. Os oes gennych gwestiwn yr hoffech i ni geisio eu hateb yn y bwletin nesaf, ebostiwch ef atom ni: **covid19@menterabusnes.co.uk**